

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021

Paru Data: Peilot Fferylliaeth Gymunedol - Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu mewn cysylltiad ag ymarfer peilot paru data fferylliaeth gymunedol Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol; mae'n frand ac yn hunaniaeth ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu data personol mewn perthynas ag ymarferion paru data yn unol â'n pwerau yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (adrannau 64A-64H) ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU. Rydym ond yn prosesu data categori arbennig (sensitif) pan fo hynny'n angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol (gyda sail gyfreithiol) ar gyfer cynnal un o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am gwmpas y pwerau hyn ar gael yn y Cod Ymarfer Paru Data, sydd ar gael ar ein [gwefan](#).

Diben

Diben cynnal ymarferion paru data yw arfer pwerau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i helpu atal a chanfod twyll.

Beth sy'n digwydd wrth baru data

Ffocws yr ymarfer paru data peilot fferylliaeth gymunedol yw nodi meysydd lle mae risg o dwyll a chost uchel. Byddwn yn cael setiau data gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ar y cyd â Gwasanaeth Gwrth Dwyll GIG Cymru. Bydd paru data yn cynnwys dadansoddi metrigau perfformiad ar draws

fferyllfeydd a phractisau, a chymharu setiau o ddata er mwyn hwyluso'r broses o nodi hawliadau twyllodrus a meysydd o gost uchel. Pan fydd data yn cael eu paru, gall ddangos bod anghysondeb y mae angen ymchwilio ymhellach iddo; nid yw o reidrwydd yn dystiolaeth o dwyll nac arfer amhriodol. Mater i Wasanaethau Gwrth Dwyll GIG Cymru yw penderfynu ar gamau priodol i'w cymryd ar sail unrhyw anghysonderau a ganfyddir mewn perthynas â thwyll. Lle na fydd data yn cael eu paru, ni fydd y pwerau paru data yn cael effaith sylweddol ar unigolion y mae eu data wedi'u paru. Pan fyddwn yn dod o hyd i feysydd cost uchel, byddwn yn rhoi gwybod i'r Byrddau lechyd perthnasol a mater iddynt hwy fydd penderfynu ar gamau priodol.

Sut mae data'n cael ei rannu

Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rhannu data gyda ni gan ddefnyddio rhaglen rhannu ffeiliau allanol o'r enw Objective Connect.

Byddwn yn rhannu'r setiau data sylfaenol a gafwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yn ogystal â'n dadansoddiad paru data gyda Gwasanaeth Gwrth Dwyll GIG Cymru, a'r Byrddau lechyd perthnasol (Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe) yn unol ag adran 64D o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Bydd yr holl rannu'n cael ei wneud yn unol â Phrotocol Rhannu Data'r Peilot.

Cadw

Bydd eich data personol yn cael ei gadw'n ddiogel gennym am y cyfnodau a nodir yn ein Polisi Rheoli Dogfennau a Chofnodion, sy'n datgan y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a gesglir at ddibenion archwilio yn cael ei chadw'n ddiogel am 6 blynedd ac yna'n cael ei dinistrio. Gall cyrff eraill y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad hwn sy'n derbyn gwybodaeth o'r ymarfer paru data fod yn wahanol yn eu cyfnodau cadw ar gyfer y dadansoddiad ac unrhyw ymchwiliad dilynol.

Hawliau unigol

Mae gennych hawl i ofyn am wybodaeth am sut y caiff eich data personol ei brosesu, ac i ofyn am gopi o'r data personol hwnnw. Mae gennych hawl i ofyn i unrhyw anghywirdebau yn eich data personol gael eu cywiro'n ddi-oed. Mae gennych hawl i ofyn i'ch data personol gael ei ddileu os nad oes cyfiawnhad mwyach iddynt gael eu prosesu. Mae gennych yr hawl mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, lle mae cywirdeb yn cael ei herio) i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol. Mae prosesu eich data yn angenrheidiol am resymau sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd wrth arfer awdurdod swyddogol Archwilydd

Cyffredinol Cymru a rheolwyr paru data eraill. Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol ar sail eich sefyllfa benodol. Os ydych yn gwrthwynebu, mae'n ofynnol i ni ddangos seiliau dilys dros y prosesu.

Dylid anfon cwynion am gyrff sy'n cymryd rhan yn ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol â'r gyrff hynny yn uniongyrchol. Bydd cwynion am sut y cyflawnir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â sut mae staff Swyddfa Archwilio Cymru neu eraill yn cyflawni gwaith ar ei ran, yn cael ei drin o dan [gweithdrefn gwynion Swyddfa Archwilio Cymru](#).

Swyddog Diogelu Data (DPO)

Os hoffech drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, neu gael copi o'r wybodaeth personol gyfredol a gedwir amdanoch, ysgrifennwch at: Martin Peters Swyddog Diogelu Data, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ neu drwy e-bost at: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau o dan gyfraith diogelu data neu os hoffech gwyno am sut rydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu drwy e-bost ar casework@ico.gsi.gov.uk.